# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 4

TRINIAETHAU ARBENNIG

*Dirymu trwydded triniaeth arbennig*

### 68 Dirymu trwydded triniaeth arbennig

(1) Os yw awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adran (2), (3) neu (4) wedi eu bodloni, caiff roi hysbysiad i ddeiliad trwydded—

(a) sy'n dirymu trwydded triniaeth arbennig a ddyroddir ganddo i ddeiliad y drwydded, neu

(b) sy'n dirymu trwydded triniaeth arbennig a ddyroddir ganddo i ddeiliad y drwydded i'r graddau y mae'n awdurdodi i driniaeth arbennig benodol gael ei rhoi.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys, a

(b) bod peidio â chydymffurfio yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol.

(3) Yr amodau yw—

(a) bod deiliad y drwydded wedi ei euogfarnu o drosedd sy'n drosedd berthnasol (ac a oedd yn drosedd berthnasol ar y dyddiad y dyroddwyd y drwydded o dan sylw),

(b) bod y drwydded wedi ei dyroddi i ddeiliad y drwydded heb i'r awdurdod lleol roi sylw i natur ac amgylchiadau'r drosedd honno, fel y'i disgrifir yn adran 66, naill ai oherwydd nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r euogfarn, neu oherwydd na chafwyd yr euogfarn cyn dyroddi'r drwydded, ac

(c) naill ai na fyddai'r drwydded, pe bai'r awdurdod wedi rhoi sylw i natur ac amgylchiadau'r drosedd honno, fel y'i disgrifir yn adran 66, at ddibenion

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

dyroddi'r drwydded, wedi cael ei dyroddi o gwbl (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(a)), neu na fyddai wedi cael ei dyroddi i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoi triniaeth benodol (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(b) mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno).

(4) Yr amodau yw—

(a) i ddeiliad y drwydded wneud datganiad a oedd yn anwir neu'n gamarweiniol mewn cysylltiad â chais i ddyroddi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig, a

(b) naill ai na fyddai'r drwydded, pe bai'r awdurdod wedi gwybod bod y datganiad yn anwir neu'n gamarweiniol, wedi cael ei dyroddi o gwbl (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(a)), neu na fyddai wedi cael ei dyroddi i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoi triniaeth benodol (yn achos dirymu fel y'i disgrifir yn is-adran (1)(b)).

(5) Mae dirymiad o dan yr adran hon yn cael effaith—

(a) pan ddaw'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl o dan Atodlen 3 mewn cysylltiad â'r dirymiad i ben, os na chaiff apêl ei dwyn o dan yr Atodlen honno o fewn y cyfnod hwnnw;

(b) â'r dyddiad y tynnir yn ôl unrhyw apêl neu apêl bellach a gaiff ei dwyn mewn cysylltiad â'r dirymiad, neu ddyddiad dyfarniad terfynol ar unrhyw apêl neu apêl bellach aflwyddiannus a gaiff ei dwyn mewn cysylltiad â'r dirymiad, pan fo'r apêl neu'r apêl bellach wedi ei dwyn o dan Atodlen 3 a phan na fo apêl bellach ar gael o dan yr Atodlen honno;

(c) pan ddaw'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl bellach o dan Atodlen 3 i ben, pan fo apêl a gaiff ei dwyn o dan Atodlen 3 mewn cysylltiad â'r dirymiad wedi ei thynnu'n ôl neu'n aflwyddiannus, ac mae apêl bellach o dan Atodlen 3 ar gael ond ni chaiff ei dwyn o fewn y cyfnod hwnnw.

(6) At ddibenion is-adran (5)(b) ac (c) uchod, caiff apêl ei dwyn o dan Atodlen 3 os caiff ei dwyn o fewn y cyfnod y darperir ar ei gyfer yn yr Atodlen honno ar gyfer dwyn apêl o'r math o dan sylw.

(7) Am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer dirymiadau, gweler Atodlen 3.